



# Rheolau am Geisiadau am Gydnabyddiaeth Cyffredinol Corff Dyfarnu



HYDREF 2021

## **Rheoli fersiynau**

Cyhoeddwyd y fersiwn hon (5) o Rheolau am Geisiadau am Gydabyddiaeth Cyffredinol Corff Dyfarnu ym mis Hydref 2021. Mae'r fersiwn hon yn disodli Fersiwn 4, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021.

Croesewir adborth gan y cyhoedd ar y ddogfen reoleiddio hon yn y cyfamser. Dylech anfon eich sylwadau i [polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org).

## Cynnwys

|   |   |
|---|---|
| Egwyddorion Cyffredinol .....                     | 4 |
| Cydnabod corff dyfarnu .....                      | 5 |
| Sut i wneud cais.....                             | 5 |
| Dod â'ch Cydnabyddiaeth i ben neu ei diwygio..... | 6 |

## Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at unrhyw gorff sy'n awyddus i wneud cais i Cymwysterau Cymru i ddod yn gorff dyfarnu cydnabyddedig ac i gael ei gymwysterau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru. O dan adran 10 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i ni lunio rheolau ynghylch cyflwyno ceisiadau i ni mewn perthynas â chydabod corff dyfarnu. Nod y rheolau yw darparu'r canlynol:

- eglurder i ymgeiswyr o ran y wybodaeth sydd ei hangen ar Cymwysterau Cymru er mwyn gallu ystyried p'un a ellir cydnabod corff; a
- eglurder i ymgeiswyr o ran y broses ar gyfer gwneud cais am gydnabyddiaeth

Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr ddarllen y ddogfen hon ar y cyd ag unrhyw ddogfennau cyhoeddedig o blith yr isod:

- [Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol](#);
- Meini Prawf Cydnabod ar gyfer cymhwyster-benodol, megis [ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG](#);
- [Amodau Cydnabod Safonol](#);
- [Meini Prawf Cymeradwyo ac Amodau Cymeradwyo](#); a
- [Rheolau am geisiadau i ddynodi cymwysterau](#)

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf â cham 1 o'r broses gwneud cais. Os bydd ymgeisydd yn llwyddo yn ystod cam 1, bydd Cymwysterau Cymru yn darparu rhagor o fanylion am gam 2 o'r broses.

## Cydnabod corff dyfarnu

Er mwyn cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru.

Er mwyn cynnig cymwysterau rheoledig yng Nghymru, rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru. Cyn y gellir rhoi cydnabyddiaeth i Gorff Dyfarnu, rhaid iddo gyflwyno cais i ni, gan ddangos ei fod yn cwrdd â'n Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol.

## Sut i wneud cais

Os hoffech wneud ymholiad ynglŷn â chael eich cydnabod, e-bostiwch [datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org](mailto:datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org)

Byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym pam yr ydych am gael eich cydnabod gennym ni. Bydd hyn yn helpu i benderfynu a yw cydnabyddiaeth yn addas i chi. I fwrw ymlaen â'ch cais, yna bydd angen i chi wneud cais ffurfiol.

Bydd hyn yn golygu eich bod yn darparu digon o dystiolaeth i ni o'ch gallu i fodloni ein gofynion fel y nodir yn ein [Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol](#).

Mae'r cais ffurfiol yn broses ddwy ran:

- ***Rhan 1: Llenwi'r ffurflen gais ragarweiniol***

Yn dilyn ymholiad cychwynnol, gwahoddir ymgeisydd cymwys i lenwi a chyflwyno ffurflen gais ragarweiniol. Bydd y ffurflen hon yn canolbwyntio ar wybodaeth benodol i Gymru a fydd yn cynnwys eich cynllun busnes ar gyfer Cymru a manylion y galw a ragwelir neu'r galw gwirioneddol am eich cymwysterau.

Os ystyrir bod eich cais rhagarweiniol yn ddigonol, cewch eich gwahodd i gwblhau cais cydnabod llawn.

- ***Rhan 2: Llenwi'r ffurflen gais llawn***

Bydd angen i gais llawn ddangos y gallu i fodloni'r [Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol](#) a'r potensial i gydymffurfio â'n [Hamodau Cydnabod Safonol](#).

Ar ôl cyflwyno'r cais llawn, byddwn yn cynnal gwiriad gweinyddol i sicrhau ei fod yn gyflawn. Unwaith y byddwn yn fodlon bod y cais wedi'i gwblhau, byddwn yn asesu'r

cais yn erbyn y Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol. Ein nod yw dod i'n penderfyniad o fewn 3 mis o ddechrau ein hadolygiad, ond gallai hyn gymryd hyd at 6 mis pan yn ymdrin â cheisiadau cymhleth neu yn ystod cyfnodau o alw uchel. Unwaith y byddwn wedi cwblhau ein hadolygiad, byddwn yn rhannu'n adborth gyda chi..

Os na fyddwch wedi bodloni gofynion ein *Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol*, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam ein bod wedi gwrthod eich cais.

Ar ôl ystyried ein hadborth, mae croeso i chi wneud cais arall.

Os ydych wedi cwrdd â'n meini prawf, byddwn yn eich adnabod yn ffurfiol fel corff dyfarnu yng Nghymru. Byddwch yn gallu cynnig eich holl gymwysterau cydnabyddedig fel y'u rheoleiddir gan Gymwysterau Cymru, oni bai:

- a) ein bod wedi cyhoeddi Meini Prawf Cydnabod sy'n benodol i gymhwyster nad ydych wedi'u cwrdd, neu,<sup>1</sup>
- b) eich bod yn nodi'n glir eich bod am i rai cymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, gael eu heithrio.

## **Dod â'ch Cydnabyddiaeth i ben neu ei diwygio**

Os ydych am i ni roi'r gorau i reoleiddio rhai o'ch cymwysterau neu bob un ohonynt, gallwch 'ildio' eich cydnabyddiaeth. Mae ildio yn broses wirfoddol, ffurfiol a rhaid ei wneud yn unol â'r gofynion fel y nodir yn Amod D6 o'n Hamodau Cydnabod Safonol. I ildio'ch cydnabyddiaeth, anfonwch e-bost at [datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org](mailto:datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org) i drafod eich cynlluniau a'n gofynion.

---

<sup>1</sup>Os yw corff dyfarnu'n dymuno cynnig cymwysterau sydd â meini prawf cydnabod cymhwyster-benodol ychwanegol, fe gysylltw'n â nhw i drafod y gofynion ychwanegol hyn.